# Gwasanaeth Pobl a Pherfformiad

**This document is also available in English.**

## Adnoddau Dynol

**Diana Burns**
**Rheolwr Tîm AD**

**Eleri Wyn Williams**
**Rheolwr AD Addysg**

### Beth maen nhw'n ei wneud:

Cyngor AD arbenigol cyffredinol i reolwyr (a gweithwyr) ar bob agwedd o gylch gwaith gweithiwr.

### Mae'r gwasanaethau'n cynnwys:

- Recriwtio o'r dechrau i'r diwedd
- Ymddygiad, cwynion a phroblemau perfformio
- Cynllunio ar gyfer datblygiad/olyniaeth gweithiwr
- Rheoli presenoldeb/absenoldebau staff
- Cefnogi/cyflawni mentrau lles ar draws y Cyngor.
- Cefnogi ailstrwythuro, dileu swyddi a newidiadau strwythurol eraill fel Trosglwyddo Ymgymeriadau Diogelu Cyflogaeth (TUPE)
- Adnabod, gweithredu a gweinyddu buddion gweithwyr
- Datblygu ac adolygu polisïau AD
- Darparu hyfforddiant yn ymwneud â'r polisi AD
- Gwerthuso Swydd a Hyfforddiant GS
- Gweithio gyda Gyrfa Cymru a chyrff eraill i ymgysylltu ag ysgolion
- Cynghori a chefnogi rheolwyr a thimau gyda rheoli gwrthdaro / cyfryngu
- Gweinyddu iTrent a Vision Time a darparu data gweithle hanfodol i'r holl wasanaethau
- Paratoi gwaith i ymateb i gymodi ACAS a cheisiadau Tribiwnlys Cyflogaeth
- Rheoli contractau Iechyd Galwedigaethol, Gofal yn Gyntaf a PYL
- Cefnogi lles staff trwy sawl menter h.y. Amser i Newid Cymru
- Cynnal y wybodaeth diweddaraf ar gyfraith achosion, telerau ac amodau NJC a sicrhau cydymffurfiad

## Tegwch a Chydraddoldeb

**Tracey Pardoe**
**Rheolwr Adnoddau Dynol**

### Beth maen nhw'n ei wneud:

Cefnogi'r sefydliad i gwrdd â'i gyfrifoldebau yn unol â'r Ddeddf Cydraddoldeb 2010, Dyletswydd Cydraddoldeb Sector Cyhoeddus a'r Dyletswydd Economaidd-Gymdeithasol.

### Mae'r gwasanaethau'n cynnwys:

- Cynhyrchu, gweithredu a chefnogi gwasanaethau i ddarparu Cynllun Cydraddoldeb Strategol y Cyngor.
- Cynhyrchu adroddiad blynyddol ar gynnydd y Cynllun Cydraddoldeb Strategol a'r Adroddiad Monitro Cyflogaeth - wedi'i gyhoeddi ar wefan Conwy
- Gweithredu mecanweithiau, polisïau, offer a hyfforddiant i sicrhau fod gwasanaethau yn rhoi sylw dyledus i ddyletswyddau cydraddoldeb trwy'r broses Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb.
- Cydlynu grŵp o Gefnogwyr Cydraddoldeb i sicrhau fod gwasanaethau yn ymgymryd â'u gweithredoedd gyda Chynlluniau Cydraddoldeb Strategol ac i roi gwybod i'r grŵp am ddatblygiadau eraill yn y maes cydraddoldeb ac amrywiaeth
- Darparu Hyfforddiant Cydraddoldeb ac Amrywiaeth i'r holl staff
- Darparu hyfforddiant Cydraddoldeb ac Amrywiaeth i Aelodau'r Cabinet a Chraffu ar eu cyfrifoldebau
- Gwneud trefniadau i sicrhau fod cynlluniau gweithredu eraill dan arweiniad Llywodraeth Cymru yn cael eu gweithredu gan Gonwy, h.y. Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol (wedi'i gyflwyno erbyn hyn), Cynllun Gweithredu LHDTC+
- Cynnal gwefan Cydraddoldeb ac Amrywiaeth
- Cynghori GAA i sicrhau fod Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb wedi cael ei wneud ar benderfyniadau a chynigion allweddol pan yn briodol

## Datblygiad Sefydliadol

**Cheryl Roberts**
**Rheolwr Datblygu Sefydliad Corfforaethol**

### Beth maen nhw'n ei wneud:

Cefnogi a dylanwadu'r sefydliad i ddatblygu, trawsnewid a gwella perfformiad i gyflawni ei botensial trwy brosesau, pobl a diwylliant

### Mae'r gwasanaethau'n cynnwys:

- Arwain ar ddatblygu, dylunio a lansio'r Cynllun Dysgu a Datblygu Corfforaethol. Cydlynu a chefnogi ei weithrediad, cyfathrebu gyda darparwyr hyfforddiant allanol
- Arwain ar y datblygiad a'r lansiad o ddull hyfforddi wedi'i adfywio trwy Ddiwylliant Hyfforddi
- Monitro ac adrodd ar gyflawni Modiwlau Hyfforddiant Hanfodol
- Cydlynu a rheoli'r Cynllun Lleoliad Gwaith corfforaethol, adnabod cyfleoedd i weithio gyda phartneriaid
- Rheoli a chyflawni Cyfnod Cynefino Corfforaethol
- Arwain ar ddylunio a datblygu dull newydd o Reoli Perfformiad
- Cefnogi cyfleoedd prentisiaeth a rhoi cyngor i wasanaethau sy'n recriwtio Prentisiaid Modern.
- Cyfrifoldeb am safle Conwy o'r platfform learning@wales sy'n cael ei gynnal gan y GIG
- Arwain yr agenda rheoli cynllunio yn Fforwm Rheolwyr Conwy
- Cefnogi mentrau trawsnewid sy'n cael effaith ar ddiwylliant y gweithle.

# Gwasanaeth Pobl a Pherfformiad

## Cynllunio Strategol ac Ymchwil

**Amanda Jones**
**Rheolwr Perfformiad a Gwelliant Corfforaethol**

### Beth maen nhw'n ei wneud:

Defnyddio ymchwil a data i gefnogi’r gwaith o wneud penderfyniadau.
Sicrhau fod Conwy yn cyflawni ein blaenoriaethau cenedlaethol a strategol.

### Mae’r gwasanaethau’n cynnwys:

- Asesiad Lles
- Proffiliau ward
- Bwletinau ymchwil - poblogaeth, cydraddoldeb, economi, tai
- Cyfrifiad
- Dylunio arolwg a dadansoddi
- Cynllun Datblygu Lleol
- Cynllun Corfforaethol ac Amcanion Lles
- Rheoli perfformiad
- Rheoli materion a risgiau
- Cydymffurfio â rheoliadau a safonau
- Cefnogi’r gwaith o weithredu Cynllun Lles y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus
- Ymgysylltu â'r gymuned

## Moderneiddio Corfforaethol

**Emma Roberts**
**Rheolwr Moderneiddio Corfforaethol**

### Beth maen nhw'n ei wneud:

Rheoli prosiectau a rhaglenni sylweddol ledled y cyngor.
Adolygu, diweddaru a hyrwyddo Fframwaith Rheoli Rhaglenni a Phrosiectau’r Cyngor.
Datblygu a chyflawni sesiynau hyfforddi ar y Fframwaith ar draws yr Awdurdod.
Darparu cyngor a chefnogaeth i swyddogion ar draws y cyngor ar reoli prosiectau a rhaglenni.
Cyflawni Gwiriadau Iechyd ar Raglenni/Prosiectau
Cefnogi gyda recriwtio Rheolwyr Prosiect ar draws y Cyngor a mentora Rheolwyr Prosiectau presennol a newydd.

### Mae’r gwasanaethau’n cynnwys:

Rheolwyr Prosiectau a Rhaglenni

## Iechyd a Diogelwch Corfforaethol

**Richard Evans**
**Rheolwr Iechyd a Diogelwch Galwedigaethol Corfforaethol**

### Beth maen nhw'n ei wneud:

Cefnogi gwasanaethau i wneud yn siŵr fod staff ac unrhyw un sy’n cael eu heffeithio gan eu gweithgareddau yn ddiogel a iach yn eu gwaith.
Cynghori, arwain a chefnogi rheolwyr ar draws y gwasanaethau gan wneud yn siŵr fod iechyd a diogelwch yn cael ei ymgorffori o fewn yr holl weithdrefnau gwaith a gweithluoedd.

### Mae’r gwasanaethau’n cynnwys:

- Cyngor ac Arweiniad ar Iechyd a Diogelwch
- Polisïau a gweithdrefnau Iechyd a Diogelwch Corfforaethol
- Monitro ac Archwilio Iechyd a Diogelwch
- Asesiadau risg tân
- Ymchwiliadau i achosion/damweiniau
- Hyrwyddo diwylliant diogelwch positif